O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 737 (Cy.114)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, ger Caersŵs, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *9 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *19 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, ger Caersŵs, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 19 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 i'r de-ddwyrain o Gaersŵs yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt oddeutu 10 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A489 hyd at bwynt oddeutu 60 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.